

Cyrraedd myfyrwyr

Ystyriaethau allweddol

- Mae pobl ifanc yn llai tebygol o fod wedi'u cofrestru i bleidleisio na phobl mewn grwpiau oedran eraill
- Mae tua 30% o bobl rhwng 18 a 24 oed heb gofrestru i bleidleisio o gymharu â llai na 5% o bobl dros 65 oed¹
- Mae cofrestru pobl ifanc ac, yn benodol, gyrhaeddwy (gan gynnwys pobl ifanc 14/15 oed yn yr Alban) yn dal i fod yn her i Swyddogion Cofrestru Etholiadol
- Gall y broses o gofrestru myfyrwyr fod yn fwy heriol o dan y drefn Cofrestrriad Etholiadol Unigol nag ydoedd o dan y system cofrestru cartrefi gan nad yw prifysgolion yn gallu gweithredu fel 'penteulu' a chofrestru myfyrwyr mewn llety prifysgol ar y cyd mwyach
- Mae nifer o Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cydweithio â phrifysgolion yn eu hardal i gynnwys cofrestru etholiadol yn y broses o gofrestru myfyrwyr er mwyn eu helpu i wynebu'r heriau hyn

Opsiynau

- Ymgorffori cofrestru etholiadol yn uniongyrchol yn y broses o gofrestru myfyrwyr
- Rhannu gwybodaeth gyswllt myfyrwyr rhwng prifysgolion a Swyddogion Cofrestru Etholiadol, er mwyn gallu targedu myfyrwyr yn uniongyrchol
- Ystyried negeseuon wedi'u teilwra i fyfyrwyr, yn enwedig o amgylch campysau ac yn y cyfryngau cymdeithasol
- Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, prifysgolion a sefydliadau cymunedol lleol i gynnal digwyddiadau cofrestru
- Cynnwys sylwadau gan fyfyrwyr a phobl ifanc yn eich deunydd cyfathrebu – mae pobl ifanc yn fwy tebygol o weithredu pan gaiff y wybodaeth ei chyflwyno gan bobl y gallant uniaethu â nhw

Buddiannau posibl

- Lefelau cofrestru uwch ymhlith myfyrwyr
- Llai o faich gweinyddol ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol gan na fydd angen canfasio cynifer o breswylfeydd myfyrwyr
- Cofrestri mwy cywir a chyflawn

Profiadau cyrff eraill



Cyngor Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf

Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi cydweithio â'r ddwy brifysgol yn y ddinas i gynnwys cofrestru pleidleiswyr yn y broses o gofrestru myfyrwyr. Gellir priodoli'r lefelau uwch o gofrestru myfyrwyr i'r gweithgarwch partneriaeth hwn. Caiff yr un model ei ddefnyddio gan Brifysgol Sheffield – mae rhagor o wybodaeth am sut y gwnaed hyn i'w gweld yn yr [astudiaeth achos](#) a gyhoeddwyd gennym yn 2016.

¹ Y Comisiwn Etholiadol, [The December 2015 electoral registers in Great Britain: Accuracy and completeness of the registers in Great Britain and the transition to Individual Electoral Registration](#) (Gorffennaf 2016).



Cyngor Dosbarth Cotswold

Cytunodd y brifysgol amaethyddol leol i roi rhestr o fyfyrwyr newydd ar y campws a'u cyfeiriadau e-bost i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol. Wedyn, anfonodd y Swyddog Cofrestru Etholiadol e-bost at bob myfyriwr yn dweud wrtho am y broses cofrestru etholiadol, gan gynnwys esboniad o allu myfyrwyr i gofrestru drwy ddefnyddio eu cyfeiriad cartref A chyfeiriad yn ystod y tymor os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Roedd yr e-bost yn gofyn i dderbynwyr ateb os nad oeddent yn dymuno cofrestru.

Wythnos yn ddiweddarach, anfonwyd Gwahoddiad i Gofrestru at bob myfyriwr ar y rhestr (ac eithrio'r rhai nad oeddent yn dymuno cofrestru drwy ddefnyddio eu cyfeiriad yn ystod y tymor). Gwnaeth y dull gweithredu hwn helpu i dargedu grŵp lle na cheir lefelau cofrestru digonol ac osgoi'r gwaith diangen o gysylltu â'r rhai nad oeddent yn dymuno cofrestru drwy ddefnyddio eu cyfeiriad yn ystod y tymor.



Cyngor Dinas Bryste

Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi gweithio i gynnwys cofrestru pleidleiswyr yn rhan o'r broses o gofrestru myfyrwyr. Mae Cyngor Bryste yn ceisio cael y brifysgol i symud y broses cofrestru etholiadol i ganol y broses o gofrestru myfyrwyr, yn hytrach na'r diwedd, er mwyn ceisio sicrhau bod myfyrwyr yn cwblhau'r broses yn llawn.



Cynghorau yn yr Alban

Gweithiodd y Comisiwn Etholiadol gyda phob un o'r 32 o gynghorau yn yr Alban ar ymgyrch #ReadyToVote er mwyn annog pobl ifanc 16 ac 17 oed i gofrestru i bleidleisio cyn etholiadau cynghorau'r Alban ym mis Mai 2017. Gweithiodd y cynghorau mewn partneriaeth ag ysgolion, prifysgolion a sefydliadau cymunedol lleol i gynnal digwyddiadau cofrestru ar gyfer pobl ifanc. Hefyd, cafodd negeseuon cofrestru ymgyrch #ReadyToVote eu rhannu yn y cyfryngau cymdeithasol er mwyn tynnu sylw at y neges drwy sefydliadau partner sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc

Heriau

- Anawsterau posibl o ran sefydlu cysylltiadau â phrifysgolion a sicrhau eu bod yn ymgysylltu â'r broses
- Cael gafael ar ddata ar geisiadau i gofrestru ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn byw yn yr ardal gofrestru – mae hyn yn rhywbeth y mae Cyngor Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf wedi'i wynebu ac maent yn gweithio i ddatrys y broblem ar hyn o bryd
- Mae'n bosibl y gall prifysgolion godi tâl am ddarparu'r elfen berthnasol o'u gwasanaeth cofrestru

Adnoddau



Mae ein [taflenni tactegau enghreifftiol ar gyfer cyrraedd cynulleidfaoedd targed](#) yn cynnwys syniadau ar gyfer targedu grwpiau lle na cheir lefelau cofrestru digonol, megis myfyrwyr.

Mae canllawiau manwl ar adolygu a diweddarau eich [strategaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd](#) a'ch [cynllun cofrestru](#) i'w gweld yn [Rhan 1: Cynllunio ar gyfer cyflawni gweithgarwch cofrestru etholiadol](#).

I gael gwybodaeth am sut mae Cyngor Dinas Sheffield wedi bod yn annog myfyrwyr i gofrestru, gweler yr [astudiaeth achos](#) ganlynol.

Cysylltu â ni

Byddem wir yn gwerthfawrogi clywed gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol sydd wedi rhoi dulliau arloesol ar waith er mwyn ymgysylltu â myfyrwyr yn eu hardal, felly cysylltwch â'ch [tîm lleol yn y Comisiwn](#). Fel arall, os hoffech siarad yn uniongyrchol ag unrhyw rai o'r awdurdodau a enwir yn yr adnodd hwn, rhowch wybod i ni a byddwn yn fwy na pharod i'ch helpu yn hyn o beth.